

Canllaw Cynadleddau

Mae Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg ar gael i roi cyngor i adrannau am ofynion darpariaeth ddwyieithog wrth iddynt gynllunio'u cynadleddau. Cysylltwch â Gwenno Piette (gws@aber.ac.uk; 2045) i drafod ymhellach.

Er mwyn eich rhoi ar ben ffordd, dylech ystyried y materion canlynol:

Galwad am bapurau

- A oes cyfle i draddodi papurau yn Gymraeg ac yn Saesneg?
- Os oes cyfle i gyflwyno'n Gymraeg bydd angen hyrwyddo'r cyfle hwn yn neunyddiau hysbysebu'r gynhadledd ac yn yr alwad am bapurau.
- Cofiwch drefnu bod cyfleusterau cyfieithu ar y pryd a chyfieithydd ar y pryd ar gael mewn cynhadledd sy'n cyflwyno papurau'n Gymraeg ac yn Saesneg.

Hyrwyddo'r Gynhadledd

- A yw'n briodol rhoi teitl dwyieithog i'r gynhadledd? Ceir teitlau dwyieithog i gynadleddau sy'n cynnwys papurau'n Gymraeg ac yn Saesneg.
- Beth bynnag fydd natur y gynhadledd bydd angen cyngor arnoch ynghylch pa ddeunyddiau a ddylai fod yn ddwyieithog wrth hysbysebu yng Nghymru, e.e. mewn rhai amgylchiadau bydd angen i fanylion am amser, lleoliad, natur y gynhadledd, gwahoddiadau, posteri, hysbysebion fod yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cysylltwch â'r Ganolfan i drafod eich sefyllfa chi.

Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd

- Os ydych yn trefnu cynhadledd Gymraeg neu ddwyieithog gwnewch yn siŵr fod pawb yn gwybod am y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ac yn rhoi gwybod o flaen llaw am eu dymuniad i ddefnyddio'r gwasanaeth. Bydd hyn yn eich cynorthwyo i wneud y trefniadau priodol e.e. trefnu amser y cyfieithydd, trefnu faint o glustffonau fydd eu hangen.

Llythyr i Fynychwyr

- Dylai'r llythyr gwahoddiad/derbyn fod yn ddwyieithog.
- Dylai'r wybodaeth am lety, bwyd, sut i gyrraedd Aber ayb fod yn ddwyieithog.
- Dylai'r ffurflen i'w llenwi ar gyfer llety, anghenion arbennig ayb fod yn ddwyieithog.

Rhaglen y Gynhadledd

- Dylai'r wybodaeth gyffredinol fod yn ddwyieithog e.e. lleoliad yr ystafell, amserau, cofrestru, croeso gan y sawl sy'n trefnu'r gynhadledd.
- Dylai'r crynodebau a'r teitlau fod yn yr iaith y traddodir y papur (gyda chyfieithiad o'r rhai Cymraeg mewn cynadleddau dwyieithog pan y darperir cyfieithu ar y pryd).
- Mewn cynhadledd ddwyieithog dylid nodi'n glir ym mha iaith y traddodir y papur.

Bathodynau

- Dylai bathodynau enwau fod yn ddwyieithog e.e. Lewis Morris, Prifysgol Aberystwyth University. Nid oes angen cyfieithu enwau sefydliadau y tu allan i Gymru neu sefydliadau sydd heb enwau swyddogol yn Gymraeg.

